Dull AGChY o Addysgu Gymnasteg
Trosolwg o Uned 17

Bod yn athro i rywun arall
Dangos a dysgu

Canlyniadau ar gyfer Uned 17
Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:
- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol
- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Canlyniadau Gwers 1	Canlyniadau Gwers 2	Canlyniadau Gwers 3	Canlyniadau Gwers 4	Canlyniadau Gwers 5	Canlyniadau Gwers 6
- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth - Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant unigol, sy'n arddangos amrywiaeth a gweithrediadau cyferbyniol - Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson - Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith	- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth - Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant unigol, sy'n arddangos amrywiaeth, gweithrediadau cyferbyniol ac ailadrodd - Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth - Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill - Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith	- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth - Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen - Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus - Dysgu dilyniant ar gyfarpar i bartner - Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth, gweithrediadau cyferbyniol ac ailadrodd - Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth - Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith	- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth - Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen - Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig - Cynnal perfformiad am gyfnodau priodol - Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson	- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth - Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus - Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig - Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol - Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill - Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith	- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth - Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus - Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig - Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol - Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill - Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 17 Gwers 1

Canlyniadau ar gyfer Uned 17

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol
- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Canlyniadau Gwers 1

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant unigol, sy'n arddangos amrywiaeth a gweithrediadau cyferbyniol
- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu trwy chwarae'r gêm Carreg, Pont, Coeden. Adolygwch yr hyn a ddysgwyd yn flaenorol. Cyflwynwch y Step Baratoi. Archwiliwch weithrediadau sy'n arwain i mewn i'r Step Baratoi ac allan ohoni. Archwiliwch wahanol siapiau wrth neidio.

Archwilio

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Llawsefyll. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau os oes angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Llawsefyll ac allan ohonynt. Mae natur y sgìl hwn yn golygu y gallai fod angen cymorth ar y dysgwyr i wneud rhai o'r gweithgareddau. Bydd angen i athrawon bwyso a mesur a yw eu dysgwyr yn barod i gymryd cyfrifoldebau o'r fath ac a oes ganddynt y gallu i wneud hynny. Rhaid i'r dysgwyr sy'n rhoi cynnig ar y gweithgareddau hyn ddangos eu bod yn gallu perfformio dilyniannau a ddysgwyd yn flaenorol yn ddiogel. Rhaid i'r athrawon/dysgwyr sy'n rhoi cymorth ddilyn y canllawiau a ddarparwyd. Tynnwch y cyfarpar allan a'i osod ar ffurf a gynlluniwyd gan yr athro.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cyfarpar i greu dilyniant unigol sy'n arddangos amrywiaeth a gweithrediadau cyferbyniol, ac sy'n cynnwys Step Baratoi ac o leiaf un o'r gweithgareddau yn y teulu o weithrediadau Llawsefyll. Defnyddiwch y Cardiau Adnoddau Amrywiaeth i helpu i wahaniaethu'r gwaith. Defnyddiwch gamera digidol i recordio'r dysgwyr wrth iddynt weithio, a gadewch iddynt wylio'r clipiau fideo ar unrhyw adeg i'w helpu i wella eu gwaith.

Ymyrryd

Pryd bu'n rhaid i chi feddwl am ddiogelwch hyd yn hyn yn y wers heddiw? A allech chi ymddwyn yn fwy cyfrifol? Beth allai ddigwydd pe na byddech yn ymddwyn yn gyfrifol? Sut ydych chi'n arddangos amrywiaeth a gweithrediadau cyferbyniol? Beth arall allech chi ei wneud? Pa mor hawdd ydyw i gynnwys gweithgareddau o'r teulu o weithrediadau Llawsefyll? Sut gallwch chi wella hyn?

Perfformio

Gofynnwch i bob un o'r dysgwyr berfformio ar yr un pryd. Defnyddiwch gamera digidol i recordio'r dilyniannau.

Gwerthuso

Sesiwn hunanwerthuso a gaiff ei harwain gan yr athro. Defnyddiwch TGCh i adolygu'r dilyniannau. Sut gwnaethoch chi arddangos amrywiaeth a gweithrediadau cyferbyniol? Yn eich barn chi, pa mor effeithiol oedd eich defnydd o amrywiaeth a gweithrediadau cyferbyniol? Beth allech chi ei wneud i wella hyn yn y wers nesaf? Rhowch y cyfarpar i gadw. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio gweithgaredd cynhesu sy'n defnyddio Dal y Llygoden a Phontydd Codi, a dod â'u syniadau i'r wers nesaf.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 17 Gwers 2

Canlyniadau ar gyfer Uned 17

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol
- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Canlyniadau Gwers 2

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant unigol, sy'n arddangos amrywiaeth, gweithrediadau cyferbyniol ac ailadrodd
- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio'r gweithgareddau cynhesu Dal y Llygoden a Phontydd Codi a luniwyd ganddynt. Cyflwynwch y weithred Cerdded fel Mwnci. Archwiliwch weithrediadau sy'n arwain i mewn i'r weithred Cerdded fel Mwnci ac allan ohoni. Adolygwch y Step Baratoi o'r wers ddiwethaf.

Archwilio

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Llawsefyll. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau os oes angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Llawsefyll ac allan ohonynt. Tynnwch y cyfarpar allan. Gofynnwch i'r dysgwyr adolygu'r dilyniant o'r wers ddiwethaf.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cyfarpar i greu dilyniant unigol sy'n arddangos amrywiaeth, gweithrediadau cyferbyniol ac ailadrodd, ac sy'n cynnwys gweithred Cerdded fel Mwnci ac o leiaf un o'r gweithgareddau yn y teulu o weithrediadau Llawsefyll. Defnyddiwch y Cardiau Adnoddau Amrywiaeth i helpu i wahaniaethu'r gwaith. Defnyddiwch gamera digidol i recordio'r dysgwyr wrth iddynt weithio, a gadewch iddynt wylio'r clipiau fideo ar unrhyw adeg i'w helpu i wella eu gwaith.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n cynnwys elfen o ailadrodd yn eu gwaith mewn modd dychmygus. Pam mae hyn yn effeithiol? Ym mha ffordd arall y gallech chi gynnwys elfen o ailadrodd? Trafodwch sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth. Gadewch i'r dysgwyr gyfeirio at wal eiriau. Pa mor dda ydych chi'n cyflawni'r dasg hyd yn hyn? Pa agweddau ydych chi'n hapus â nhw? Beth ydych chi am ei wella, a pham? Sut ydych chi'n mynd i wneud hynny?

Perfformio

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i ddysgwr arall. Gofynnwch i'r dysgwr sy'n gwylio recordio'r perfformiad ar gamera digidol.

Gwerthuso

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan yr athro. Gofynnwch i'r dysgwyr adolygu'r gwaith a recordiwyd. Beth oedd yr elfennau trawiadol yn nilyniant eich partner? Beth wnaeth eich partner ei ailadrodd? Pa mor effeithiol oedd hyn, a pham? Sut mae eich partner wedi arddangos amrywiaeth a gweithrediadau cyferbyniol? Beth allai eich partner ei wella? Sut gall ef neu hi wneud hyn? Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr lunio gweithgaredd cynhesu sy'n cynnwys y weithred Cerdded fel Mwnci.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 17 Gwers 3

Canlyniadau ar gyfer Uned 17

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol
- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Canlyniadau Gwers 3

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Dysgu dilyniant ar gyfarpar i bartner
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth, gweithrediadau cyferbyniol ac ailadrodd
- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio'r gweithgareddau Cerdded fel Mwnci a luniwyd ganddynt.

Archwilio

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Llawsefyll. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau os oes angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Llawsefyll ac allan ohonynt. Bydd nifer o ddysgwyr yn perfformio gweithrediadau cydbwyso wyneb i waered o ryw fath yn ystod y cam hwn. Tynnwch y cyfarpar allan. Gofynnwch iddynt adolygu'r dilyniant o'r wers ddiwethaf. Gofynnwch i'r dysgwyr ddysgu eu dilyniant i ddysgwr arall ac yna newid drosodd. Defnyddiwch gamerâu digidol er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn dysgu ac yn perfformio'r dilyniannau'n gywir.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant cyfun ar gyfer unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth a gweithrediadau cyferbyniol, ac sy'n cynnwys gweithred Cerdded fel Mwnci ac o leiaf un o'r gweithgareddau o'r teulu o weithrediadau Llawsefyll. Bydd y dilyniant yn cynnwys tair adran: yn yr adran gyntaf bydd dysgwr A yn perfformio ei ddilyniant ar yr un pryd ag y mae dysgwr B yn perfformio ei ddilyniant, yn yr ail adran bydd dysgwr A a B yn perfformio naill ai dilyniant dysgwr A neu B mewn modd unffurf, ac yn y drydedd adran bydd dysgwr A a B yn perfformio dilyniant y dysgwr arall mewn modd unffurf. Defnyddiwch gamerâu digidol i wella ansawdd y gwaith.

Ymyrryd

Beth ydych chi wedi'i ddysgu'n flaenorol sy'n eich helpu i gyflawni'r gweithgareddau Llawsefyll? Sut ydych chi'n addasu'r sgiliau hyn? Defnyddiwch y strategaeth '**GAD**' - 'Beth ydw i'n ei **wybod** eisoes am yr hyn sy'n gwneud sgìl neu weithred yn llwyddiannus? Beth ydw i **am** ei wybod? Defnyddiwch Nodweddion Ansawdd y Cwricwlwm Cenedlaethol i helpu'r dysgwyr. Pa mor dda oedd eich partner wedi dysgu ei ddilyniant i chi? Sut gallai wella'r modd y mae'n dysgu? Trafodwch sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth.

Perfformio

Gofynnwch i bawb berfformio ar yr un pryd. Recordiwch y perfformiadau ar gamera digidol.

Gwerthuso

Sesiwn hunanwerthuso a gaiff ei harwain gan yr athro. Gofynnwch i'r dysgwyr adolygu'r gwaith a recordiwyd. Pa un o'ch gweithrediadau neu sgiliau yw'r un mwyaf llwyddiannus, a pham? Beth ydw i wedi ei **ddysgu** am weithrediadau a sgiliau llwyddiannus? Sut ydw i'n mynd i ddefnyddio hyn i wella fy mherfformiad? Pa mor gywir oeddech chi'n gallu perfformio dilyniannau eich gilydd? Rhowch y cyfarpar i gadw. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r elfennau trawiadol yn y ddau ddilyniant i'w cynnwys mewn dilyniant yn y wers nesaf.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 17 Gwers 4

Canlyniadau ar gyfer Uned 17

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol
- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Canlyniadau Gwers 4

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Cynnal perfformiad am gyfnodau priodol
- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu trwy ddefnyddio gweithrediadau Cynnal a Chlapio. Archwiliwch weithrediadau sy'n arwain i mewn i'r weithred Cynnal a Chlapio ac allan ohoni.

Archwilio

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Llawsefyll. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau os oes angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Llawsefyll ac allan ohonynt. Bydd nifer o ddysgwyr yn perfformio gweithrediadau cydbwyso wyneb i waered o ryw fath yn ystod y cam hwn. Sicrhewch bod y dysgwyr yn dal i weithio'n gyfrifol ac yn ddiogel. Tynnwch y cyfarpar allan. Gofynnwch i'r dysgwyr adolygu'r dilyniant o'r wers ddiwethaf. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio elfennau trawiadol o ddilyniant unigol pob dysgwr ac archwilio ffyrdd o gysylltu'r gweithrediadau hyn â'i gilydd gan ddefnyddio amryw o ddyfeisiau coreograffig. Defnyddiwch y Cardiau Dyfeisiau Coreograffig i helpu i wahaniaethu'r gwaith.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant cyfun ar gyfer unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig ac sy'n cynnwys gweithred Cynnal a Chlapio ac o leiaf un o'r gweithgareddau o'r teulu o weithrediadau Llawsefyll. Y dysgwyr fydd yn penderfynu ar drefn y dilyniant neu gydrannau unigol a phâr y dilyniant.

Ymyrryd

Parhewch i drafod yr hyn a ddysgwyd yn flaenorol a sut mae'n cael ei addasu a'i ddefnyddio yn eu gweithgareddau Llawsefyll. Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n defnyddio dyfeisiau coreograffig yn effeithiol. Pam mae'r dyfeisiau hyn yn effeithiol a/neu'n llwyddiannus? Pa ddyfeisiau eraill allech chi eu defnyddio? Pa mor anodd ydyw i gadw rheolaeth yn ystod y dilyniannau hwy hyn? Beth fydd yn eich helpu i gadw rheolaeth, fel bod eich perfformiad yn gyson trwy gydol y dilyniant? Pryd ydych chi wedi dilyn gweithdrefnau diogelwch heddiw? A allech chi weithio'n fwy cyfrifol? Os felly, sut gallech chi wneud hynny?

Perfformio

Gofynnwch i bawb berfformio ar yr un pryd.

Gwerthuso

Sesiwn hunanwerthuso a gaiff ei harwain gan yr athro. Pa elfennau trawiadol ydych chi'n eu hoffi fwyaf, a pham? Pa ddyfeisiau coreograffig ydych chi wedi'u defnyddio? Pa mor effeithiol ydych chi wedi'u defnyddio? I ba raddau y gwnaethoch chi gadw rheolaeth trwy gydol eich dilyniant? Sut gallech chi wella hyn? Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr lunio gweithgaredd cynhesu sy'n cynnwys y gweithrediadau Cerdded fel Mwnci a Cynnal a Chlapio.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 17 Gwers 5

Canlyniadau ar gyfer Uned 17

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol
- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Canlyniadau Gwers 5

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio'r gweithgareddau cynhesu a luniwyd ganddynt.

Archwilio

Cyflwynwch y weithred Dringo Wyneb i Waered. Archwiliwch weithrediadau sy'n arwain i mewn i'r weithred Dringo Wyneb i Waered ac allan ohoni. Trafodwch sut y gellir cynnwys y weithred Dringo Wyneb i Waered mewn gwaith ar gyfarpar. Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Llawsefyll. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau os oes angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Llawsefyll ac allan ohonynt. Bydd nifer o ddysgwyr yn perfformio gweithrediadau cydbwyso wyneb i waered o ryw fath yn ystod y cam hwn. Sicrhewch bod y dysgwyr yn dal i weithio'n gyfrifol ac yn ddiogel. Tynnwch y cyfarpar allan.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant cyfun i unigolyn a phâr, sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig ac sy'n cynnwys gweithred Dringo Wyneb i Waered ac o leiaf un o'r gweithgareddau o'r teulu o weithrediadau Llawsefyll. Sicrhewch eu bod yn gallu perfformio dilyniannau â mwy o gywirdeb, a'u cynnal am gyfnodau priodol. Defnyddiwch TGCh i helpu'r dysgwyr i weithio'n fwy cywir.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gweithrediadau'n llwyddiannus. Pam mae'r gweithrediadau'n llwyddiannus? Sut gallwch chi wneud eich gweithrediadau'n fwy llwyddiannus? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n defnyddio dyfeisiau coreograffig yn ddychmygus. Trafodwch gywirdeb. Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos mwy o gywirdeb. Gwyliwch a dadansoddwch y gwaith a recordiwyd, gan nodi agweddau sy'n arddangos mwy o gywirdeb a meysydd i'w gwella. Sut mae'r dysgwyr hyn yn cyflawni'r cywirdeb hwn? Beth y mae angen i chi ei wneud i arddangos mwy o gywirdeb yn eich gwaith? Trafodwch beth sy'n gwneud dilyniant da. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau eich dilyniant hyd yn hyn? Beth hoffech chi ei wella? Sut gallech chi wneud hynny? Cymharwch eich perfformiad eich hun â pherfformiad y gymnastwyr; beth ydych chi'n mynd i'w ymarfer ar ôl gweld y gymnastwyr yn gweithio?

Perfformio

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i bâr arall. Gofynnwch i'r pâr sy'n gwylio recordio'r perfformiad ar gamera digidol.

Gwerthuso

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan yr athro. Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r gwaith a recordiwyd. Beth yw'r elfennau trawiadol? Beth sy'n eu gwneud nhw'n elfennau trawiadol? Pa mor effeithiol yw defnydd y pâr o ddyfeisiau coreograffig, ac ar ba sail ydych chi'n dweud hynny? Nodwch un peth a fyddai'n gwneud dilyniant y pâr yn fwy llwyddiannus? Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi. Dysgu gartref: anfonwch eich adborth at y pâr arall trwy neges e-bost. Gallai'r adborth gynnwys clipiau fideo â nodiadau.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 17 Gwers 6

Canlyniadau ar gyfer Uned 17

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Dechrau mireinio ac addasu technegau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol, a'u defnyddio wrth sefyll ar eu dwylo a'u pen
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol
- Disgrifio sut gall ailadrodd wella amrywiaeth a gwneud dilyniant yn fwy cymhleth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Sylweddoli pwysigrwydd rheolau a gweithdrefnau diogelwch, a'u gweithredu'n gyson
- Defnyddio TGCh i wella effaith eu gwaith

Canlyniadau Gwers 6

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Ymarfer ystod o weithrediadau Llawsefyll sy'n gynyddol gymhleth
- Adnabod beth sy'n gwneud sgìl, syniad neu weithred yn llwyddiannus
- Creu a pherfformio dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig
- Perfformio â mwy o gywirdeb, a'i gynnal am gyfnodau priodol
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio'r gweithrediadau Cerdded fel Mwnci, Cynnal a Chlapio a Dringo Wyneb i Waered. Gofynnwch iddynt adolygu a diwygio eu dilyniant o'r wythnos diwethaf yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd gan y pâr arall.

Archwilio

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Llawsefyll. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau os oes angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Llawsefyll ac allan ohonynt. Bydd nifer o ddysgwyr yn perfformio gweithrediadau cydbwyso wyneb i waered o ryw fath yn ystod y cam hwn. Sicrhewch bod y dysgwyr yn dal i weithio'n gyfrifol ac yn ddiogel. Tynnwch y cyfarpar allan.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant cyfun i unigolyn a phâr sy'n arddangos amrywiaeth o ddyfeisiau coreograffig.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gweithrediadau'n llwyddiannus. Pam mae'r gweithrediadau'n llwyddiannus? Sut gallwch chi wneud eich gweithrediadau'n fwy llwyddiannus? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n defnyddio dyfeisiau coreograffig yn ddychmygus. Trafodwch gywirdeb. Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos mwy o gywirdeb. Gwyliwch a dadansoddwch y gwaith a recordiwyd, gan nodi agweddau sy'n arddangos mwy o gywirdeb a meysydd i'w gwella. Sut mae'r dysgwyr hyn yn cyflawni'r cywirdeb hwn? Beth y mae angen i chi ei wneud i arddangos mwy o gywirdeb yn eich gwaith? Trafodwch beth sy'n gwneud dilyniant da. Yn eich barn chi, beth yw cryfderau eich dilyniant hyd yn hyn? Beth hoffech chi ei wella? Sut gallech chi wneud hynny?

Perfformio

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i bâr arall.

Gwerthuso

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr roi adborth i'r pâr arall. Gosodwch darged ar gyfer gwella. Rhowch y cyfarpar i gadw. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi. Cyflwynwch Dystysgrif y Teulu o weithrediadau Llawsefyll i'r dysgwyr.